

HANES

Mae planhigion lafant (*Lavandula* spp) yn hanu o ardal Môr y Canoldir gan dyfu mewn pridd gwael a chreigiog a hinsawdd arfordirol mwyn. Perlysiâu persawrus yw lafant ac maent wedi cael eu defnyddio ers canrifoedd i ddibenion meddygol a choginio. Heddiw maent yn cael eu tyfu'n bennaf fel planhigion addurnol hyfryd eu harogl. Mae yna farchnad i dyfu planhigion lafant i ddibenion addurnol, a chyfleoedd i gynhyrchu nwyddau lafant arbenigol ac olew lafant. Fodd bynnag, mae'r nwyddau olaf hyn yn rhai arbenigol iawn eu natur ac mae angen buddsoddi ar lefel lawer uwch i'w cynhyrchu.

AMRYWIAETHAU A'R DEFNYDD A WNEIR OHONYNT

Mae tua 25-30 rhywogaeth o blanhigion blodeuol sy'n perthyn i deulu'r **lafant**. Yn Nhabl 1 ceir rhestr o rai o'r amrywiaethau lafant mwyaf cyffredin. Mae'r holl lafantau'n llwyni bythwyrdd gydag arogl cryf. O ran lliw mae'r blodau'n amrywio o borffor dwfn i las ysgafn a phinc a gwyn.

Tabl 1: Amrywiaethau lafant

Amrywiaeth	Enw(au) cyffredin
<i>Lavandula angustifolia</i>	Lafant Seisnig, Gwir Lafant
<i>Lavandula bipinnata</i>	
<i>Lavandula canariensis</i>	
<i>Lavandula dentata</i>	Lafant Ffrengig
<i>Lavandula heterophylla</i>	Lafant Mefus
<i>Lavandula intermedia</i>	Lafandin
<i>Lavandula lanata</i>	Lafant Gwlanog, Lafant Mynydd Sbaenaidd
<i>Lavandula latifolia</i>	Lafant Sbic
<i>Lavandula multifida</i>	Lafant Les Ffrengig
<i>Lavandula pinnata</i>	
<i>Lavandula stoechas</i>	Lafant Sbaenaidd, Lafant Eidalaid

NB: dim ond tabl cryno yw hwn gan fod yna dros 28 o wahanol lafantau *angustifolia* yn unig.

Yn gyffredinol, yr amrywiaethau mwyaf gwydn ac sydd felly'n gweddu orau i hinsawdd Cymru yw *Lavandula angustifolia* a *Lavandula x intermedia*.

Lavandula x intermedia – lafandinau

Mae'r hybridau x *intermedia* yn groesiad rhwng lafant *angustifolia* a *latifolia*. Mae cryfder hybrid y planhigion hyn yn eu gwneud yn wydn, ond maent yn anffrwythlon. Gelwir y grŵp hwn yn lafandinau, a nodweddiad y grŵp hwn yw dail mwy, coesynnau hirach a blodau mwy sy'n dod yn big yn eu blaenau yn hytrach na chrwn. Ceir llawer mwy o olew o'r lafandinau nag o'r *angustifolias*, ac felly rhain sydd fwyaf cyffredin yng nghaeau lafant Ffrainc. Nid yn unig mae'r planhigion hyn yn wydn ac yn gallu gwrthsefyll afiechydon, maent hefyd yn edrych yn ddeniadol dros fisoedd y gaeaf.

Y cyltifar lafandin "Grosso" yw'r lafandin mwyaf cyffredin.

Caiff olew o lafandin eu cymysgu fel rheol, naill ai ag olew *L. angustifolia* neu ag olewau hanfodol sydd ar gael yn fasnachol, i gynhyrchu arogl persawrus. Gellir defnyddio planhigion cyfan yn eu blodau ar gyfer cynhyrchu olew. Defnyddir blagur, coesynnau blodau a phennau blodeuol – ffres ac wedi sychu – ar gyfer amrywiaeth o ddibenion coginio, persawrus ac addurnol.



Ffig 1 *Lavandula angustifolia* 'Hidcote' a 'Munstead'

LLUOSOGI

Gellir tyfu lafant o hadau. Fodd bynnag, mae'r planhigion gorau a'r amrywiaethau mwyaf dibynadwy'n dod o doriadau. Efallai na fydd planhigion a geir o hadau'r math rydych ei eisiau gan fod traws beillio a labelu anghywir yn gyffredin.

Gellir cymryd toriadau pren meddal yn y gwanwyn o goesynnau nad ydynt yn blodeuo. Torrwch ddarnau 8-10 cm o hyd o rannau cryf ac iach y coesyn, yn hytrach nag o'r rhannau hŷn mwy coediog. Paratowch y toriadau drwy drimio'r coesyn yn union o dan nifer o ddail, ac yna tynnwch yr holl ddail o'r fan hon. Gellir gosod pedwar o doriadau o amgylch ymyl pot 9 cm wedi ei lenwi â chymysgfa gompost rhydd (gweler ffigur 2). Ar y llaw arall, ar gyfer cynhyrchu ar raddfa fawr defnyddir hambyrddau wedi eu rhannu'n gelloedd bach – un toriad i bob cell.



Ffig 2 Plannu toriadau



Ffig 3 Hambwrdd celloedd yn llawn toriadau (nb – rhosmari yw'r toriadau yn y llun hwn)

O dan amodau da bydd y planhigion yn gwreiddio mewn 2 – 3 wythnos, ond gall gwreiddio gymryd hyd at 8 wythnos. Bydd gwres o dan y potiau'n helpu'r gwreiddiau i dyfu. Cyflyma'n byd y mae'r toriadau'n gwreiddio, lleia'n byd o berygl sydd iddynt bydr a methu. Mae heintiadau ffwngaidd yn berygl felly cadwch olwg ar eich planhigion yn rheolaidd gan sicrhau bod cylchrediad da o aer o amgylch y planhigion.

Fel rheol, mae tyfwyr ar raddfa fechan yn tyfu'r planhigion am bedwar neu bum mis arall cyn eu trawsblannu i'r cae.

Gall rhai sy'n bwriadu plannu llecynnau mwy brynu nifer fawr o blygiau o blanhigion lafant. Mae plygiau ar werth gan nifer o ganolfannau gerddi ac adeg cyhoeddi'r daflen hon roedd eu pris yn amrywio o 25c-44c am bobl plwg 4 cm. Gellir cael hadau organig hefyd ond dylech ofalu eu bod yn cael eu gwerthu gan gyflenwr dibynadwy.

PLANNU AC YMSEFYDLU

Mae lafant yn hoff o bridd gyda draeniad da, gorau oll pridd tywodlyd neu lomaidd. Dylent gael digon o haul hefyd, felly argymhellir plannu ar gaeau'n wynebu'r de. Dylai pH y pridd amrywio rhwng pH 6.0 a 7.0.

Fel rheol caiff planhigion/plygiau Lafant eu plannu ddechrau Mai – mae hyn yn lleihau'r perygl i rew effeithio ar y planhigion. Gellir plannu plygiau â pheiriant neu â llaw.

Ar ôl iddynt flodeuo, dylid tocio planhigion i lefel y ddeilen gyntaf. Peidiwch â thocio i hen bren, a pheidiwch â thocio ar ôl Medi gan na fydd y toriadau'n gwella a chau efallai. Bydd hyn yn sicrhau planhigion cryf a thrwchus yn yr ail flwyddyn. Mae planhigion lafant yn gynhyrchiol am tua 5 – 10 mlynedd, er bod rhai'n medru byw cyn hyned ag 20 oed.

PLÂU AC AFIECHYDON

Fel y rhan fwyaf o berlysiâu, ychydig o blâu pryfetach sy'n poeni'r lafant; gall yr hyn a elwir yn 'boeri'r gog' fod yn hyll i'r golwg ar y dail ond nid yw'n gwneud unrhyw niwed. Ychydig o afiechydon ffwngaidd sy'n ymosod ar lafant, a chan nad oes unrhyw ffordd hysbys o'u trin, nid yw triniaethau cemegol yn fater i'w drafod yma. Yr unig afiechyd sy'n eu lladd yw'r hyn a elwir yn *Lavender shab*. Mae sporau *Phoma lavandula* yn ymddangos ar y coesynnau fel mân smotiau duon gan achosi i'r coesynnau blodau gamu a throi'n frown. Yna mae rhannau o'r llwyn yn marw. Nid oes unrhyw ffordd o drin *shab* ac felly, os yw'n ymddangos, y peth gorau yw cael gwared ar y planhigion yn gyfan gwbl. Mae'r rhan fwyaf o hybridau modern yn gallu gwrthsefyll *shab*, ond gall daro 'Munstead' a 'Loddon Pink' yn achlysurol.